# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 80(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ran ymateb i'r cynlluniau arfaethedig i gau Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid Tesco yng Nghaerdydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6283**

Huw Irranca-Davies (Ogwr)
Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r £217 miliwn o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac ymrwymiad pellach o £104 miliwn dros y pedair blynedd nesaf i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

2. Yn nodi ymhellach bod angen i effeithlonrwydd ynni yn y cartref gael ei wella'n sylweddol os yw Cymru am gyrraedd ei nod o ran datgarboneiddio a lleihau tlodi tanwydd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried amrywiaeth ehangach o ddulliau buddsoddi ar gyfer effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys cyllid arloesol, gwneud defnydd da o bensiynau'r sector cyhoeddus, a defnyddio cyllid y sector preifat.

4. Yn nodi'r cynnig i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion seilwaith ynni hirdymor Cymru a chyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn cael eu cynnwys o fewn ei gylch gwaith.

5. Yn credu y byddai buddsoddiad o'r fath yn rhoi hwb enfawr i ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn rhai o'n cartrefi hynaf, gan ddarparu cartrefi cynnes a chlyd, gwella iechyd a llesiant pawb ac yn arbennig y mwyaf agored i niwed.

6. Yn credu ymhellach y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau'r allyriadau carbon drwy effeithlonrwydd ynni, lleihau'r defnydd o ynni a lleihau nifer y gorsafoedd pŵer newydd sydd angen inni eu hadeiladu.

7. Yn cydnabod y potensial ar gyfer twf economaidd, gan greu miloedd o swyddi ym mhob cymuned ym mhob rhan o Gymru.

**Cefnogir gan:**

Lee Waters (Llanelli)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## 6 Dadl gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ei adroddiad ar ddyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6347** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2017.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6340** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae addysg uwch ran amser yn ei wneud i economi Cymru, yn arbennig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

2. Yn cefnogi mentrau fel Wythnos Addysg Oedolion ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd addysg oedolion ac addysg yn y gymuned i Gymru.

3. Yn croesawu'r pecyn cymorth arfaethedig ar gyfer addysg uwch ran amser a myfyrwyr rhan amser a gyflwynwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) darparu gwasanaeth cynghori ac addysg ym maes gyrfaoedd i bob oedran sy'n rhoi parch cydradd i opsiynau astudio llawn amser a rhan amser, yn cefnogi cynnydd i bobl sydd mewn cyflogaeth cyflog isel, ac yn cydnabod manteision ehangach addysg oedolion ac addysg yn y gymuned tuag at wella iechyd a llesiant; a

b) buddsoddi mewn addysg oedolion ac addysg yn y gymuned er mwyn hwyluso llwybrau i addysg bellach ac addysg uwch, a thrwy'r opsiynau hynny.

'Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion yr Adolygiad o Gymorth i Fyfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru ('Adolygiad Diamond')'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwasanaeth sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gwybodaeth am yrfaoedd sy'n annibynnol ac yn ddwyieithog ar gyfer pobl o bob oedran a hynny drwy Yrfa Cymru.

Yn cydnabod uchelgais Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu cynllun cyflogadwyedd newydd ar gyfer pob oedran y mae a wnelo rhan allweddol ohoni â'r angen am gyngor effeithiol a chydgysylltiedig am yrfaoedd er mwyn cynorthwyo unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd mwyaf priodol o ran addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol dysgu gan oedolion ynghyd â datblygu sgiliau ategol ar gyfer pobl o bob oedran.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i gadarnhau ei chynigion ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a chyllid addysg uwch cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol er mwyn galluogi'r sector Addysg Uwch i gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6338** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Technoleg a'r Gymraeg: Perygl neu gyfle?

Sut y mae'r Gymraeg yn ymdopi â heriau, bygythiadau a chyfleon y dechnoleg newydd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Mehefin, 2017 i'w hateb ar 28 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog ailgylchu gwastraff bwyd yng Nghymru? OAQ(5)0157(ERA)

**2.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd y Nodyn Cyngor Technegol 20? OAQ(5)0158(ERA)

**3.** **David Rees (Aberafan):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiadau a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer morlyn llanw Bae Abertawe? OAQ(5)0161(ERA)

**4.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i werthuso'r gwaith o weinyddu'r cynllun Glastir yng Nghymru? OAQ(5)0152(ERA)

**5.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiwydiant cocos Gŵyr? OAQ(5)0154(ERA)

**6.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol? OAQ(5)0164(ERA)

**7.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiogelwch diwydiant pysgota Cymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0160(ERA)

**8.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi amcangyfrif o nifer y ffermydd sy'n dioddef TB buchol a all symud moch daear sydd wedi'u heintio a'u lladd heb greulondeb? OAQ(5)0159(ERA)

**9.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r canllawiau rheoli ansawdd aer lleol yng Nghymru? OAQ(5)0155(ERA)

**10.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fesurau i fynd i'r afael â llygredd afonydd yng Nghymru? OAQ(5)0153(ERA)

**11.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ansawdd dŵr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0163(ERA)**W**

**12.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ganllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol mewn perthynas â materion cynllunio? OAQ(5)0162(ERA)

**13.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu effeithlonrwydd ynni yng Nghymru? OAQ(5)0165(ERA)

**14.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu mynediad i gefn gwlad yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0156(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i gyn-filwyr yng Nghaerffili? OAQ(5)0164(CC)

**2.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog? OAQ(5)0161(CC)

**3.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cydlyniant cymunedol yng Nghymru yn sgil digwyddiadau brawychiaeth diweddar? OAQ(5)0162(CC)

**4.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal ynghylch ariannu grwpiau cymunedol, yn dilyn dod â Cymunedau yn Gyntaf i ben? OAQ(5)0171(CC)**W**

**5.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio asedau yn ein hardaloedd lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb? OAQ(5)0165(CC)

**6.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y strategaeth Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid? OAQ(5)0160(CC)

**7.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion y trefniadau pontio ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(5)0156(CC)

**8.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** Pa mor llwyddiannus yw'r £122 miliwn a fuddsoddwyd mewn cynlluniau Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf o ran

cefnogi tadau, yn arbennig tadau sydd wedi gwahanu, i gyflawni eu rolau rhianta? OAQ(5)0167(CC)

**9.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch tân yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0166(CC)**W**

**10.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ariannu cynlluniau o dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar gyfer 2017/18? OAQ(5)0169(CC)**W**

**11.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â chymunedau ffydd yng Nghymru? OAQ(5)0168(CC)

**12.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella diogelwch cymunedol? OAQ(5)0170(CC)

**13.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau Llywodraeth Cymru sydd ar gael i helpu grwpiau cymunedol sydd am wella cyfleusterau a pharciau lleol yng Nghasnewydd? OAQ(5)0158(CC)

**14.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ceisiadau a gaiff eu hystyried ar gyfer y gronfa 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol'? OAQ(5)0163(CC)

**15.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu tai cyngor yng Nghymru? OAQ(5)0159(CC)